



Sgrinio Serfigol Cymru
Cervical Screening Wales



Sgrinio Cyn Geni Cymru
Antenatal Screening Wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Adroddiad Blynyddol Cymru Gyfan Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru (cyflwyno data 2018/19)

Ionawr 2020



www.screeningforlife.wales.nhs.uk

Amdanom ni

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.

Rydym yn rhan o'r GIG ac yn adrodd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

Ein gweledigaeth yw sicrhau Cymru iachach, hapusach a thecach. Rydym yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol, gyda'n partneriaid ac ar draws cymunedau yn y meysydd canlynol:

Diogelu iechyd — darparu gwybodaeth a chynghor a chymryd camau i ddiogelu pobl rhag clefyd trosglwyddadwy a pheryglon amgylcheddol

Gofal sylfaenol, cymunedol ac integredig — cryfhau effaith iechyd y cyhoedd drwy bolisi, comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau

Microbioleg — darparu rhwydwaith o wasanaethau microbioleg sy'n cynorthwyo diagnosis o glefydau heintus a'u rheoli

Diogelu — darparu arbenigedd a chynghor strategol i helpu i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed

Sgrinio — darparu rhaglenni sgrinio sy'n cynorthwyo canfod clefydau'n gynnar, eu hatal a'u trin

Gwybodaeth iechyd — dadansoddi data iechyd y cyhoedd, dod o hyd i dystiolaeth a rheoli gwybodaeth

Gwella ansawdd a diogelwch cleifion y GIG — darparu gwybodaeth, cynghor a chymorth i'r GIG i wella canlyniadau cleifion

Polisi, ymchwil a datblygu rhyngwladol — dylanwadu ar bolisi, cynorthwyo ymchwil a chyfrannu at ddatblygu iechyd yn rhyngwladol

Gwella iechyd — gweithio ar draws asiantaethau a darparu gwasanaethau i'r boblogaeth er mwyn gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd

Rhagor o wybodaeth

Gwefan: icc.gig.cymru
E-bost: ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk
Twitter: [@IechydCyhoeddus](https://twitter.com/IechydCyhoeddus)
Facebook: facebook.com/iechydgyhoedduscymru

© 2020 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (DLA)

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/> ar yr amod y caiff hynny ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r diwygio yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Teitl: Adroddiad Blynyddol Cymru Gyfan Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru Ionawr 2020. ISBN 978-1-78986-107-5

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am waith a wnaed gan Raglenni Sgrinio Cymru Gyfan ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2018 tan ddiwedd mis Mawrth 2019.

Manylion Cyhoeddi:

Teitl: Adroddiad Blynyddol Cymru, Gyfan Yr Adro Sgrinio, Iechyd Cyhoeddus Cymru 2018-19

Dyddiad: Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ar 16 Ionawr 2020

ISBN: 978-1-78986-107-5

I gael rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn a rhoi adborth arno cysylltwch â:

Helen Clayton, Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data,
Yr Is-adran Gwybodeg, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y Ddinas,
Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ
Ffôn: 029 2010 4405
E-bost: Screening.Information@wales.nhs.uk

Datganiad Sicrhau Ansawdd

Mae cofnodion sgrinio data yn newid yn barhaus. Mae'r cronfeydd data a ddefnyddir gan Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddarau'n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (archifo). Gallai hyn ymwneud â phan fydd unigolyn wedi'i nodi fel un y mae angen sgrinio arno; wedi cael canlyniadau sy'n rhaid eu cofnodi, neu â newid statws ac nad oes angen sgrinio arno mwyach yn y drefn honno. Ceir data o nifer mawr o ffynonellau gwahanol gyda lefelau amrywiol o gywirdeb a chyflawnrwydd. Mae'r Adran Sgrinio yn gwirio data ar gyfer cywirdeb drwy gymharu setiau data, er enghraifft data practis meddyg teulu, ac yn cywiro'r data codio lle y bo'n bosibl. Dylid nodi y ceir oedi weithiau o ran casglu data, er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru gyda'i feddyg teulu ar unwaith. Felly bydd yr oedi hwn yn effeithio ar gyflawnrwydd y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai'r darlennydd fod yn ymwybodol bod data yn cael eu diweddarau'n barhaus a gall fod mân ailgywiriadau yn y niferoedd a ddyfynnir yn y ddogfen hon o un flwyddyn i'r llall oherwydd adnewyddu data.

Adroddiad Blynyddol Cymru Gyfan

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ionawr 2020

Cynnwys

Cyflwyniad	T2
Crynodeb Cymru gyfan	T3-5
Ymgysylltu â'r boblogaeth, defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid eraill	T6
Bron Brawf Cymru	T11
Sgrinio Coluddion Cymru	T12
Sgrinio Serfigol Cymru	T14
Rhaglen Sgrinio Ymlediaidau Aortig Abdomenol Cymru	T15
Rhaglenni Sgrinio Mamau a Phlant	T16
Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru	T19
Rhagolwg	T21
Tîm cynhyrchu/rhestr cyn rhyddhau	T22
Rhagor o wybodaeth a chysylltiadau	T23

Mae'r Adran Sgrinio yn cynorthwyo datblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar drwy gyflawni rhaglenni sgrinio cenedlaethol o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar boblogaeth.

Yn unol â chynllun hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru 2018-2030, rydym yn ymrwymedig hefyd i:

- Symud tuag at atal
- Ymyrryd yn gynnar yn y gymuned
- Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n deg
- Gwella ansawdd a diogelwch cleifion

1 Cyflwyniad

Mae sgrinio yn broses o nodi pobl sy'n ymddangos yn iach a all fod mewn mwy o berygl o glefyd neu gyflwr. Yna gellir cynnig profion pellach a thriniaeth briodol iddynt i leihau eu risg a/neu gymhlethdodau sy'n codi o'r clefyd neu'r cyflwr.

Mae'r Adran Sgrinio yn cyflwyno'r saith rhaglen sgrinio genedlaethol seiliedig ar boblogaeth yng Nghymru:

1. Bron Brawf Cymru
2. Sgrinio Coluddion Cymru
3. Sgrinio Serfigol Cymru
4. Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru
5. Sgrinio Clyw Babanod Cymru
6. Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru
7. Sgrinio Ymlediaidau Aortig Abdomenol Cymru

ac mae'n rheoli rhwydwaith clinigol Sgrinio Cyn Geni Cymru.



Mae'r Adran Sgrinio yn rhan o Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fel rhan o Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym yn ymrwymedig i weithio i gyflawni dyfodol iachach i Gymru.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r data diweddaraf sydd ar gael ym mis Hydref 2019 am y rhaglenni sgrinio dros flwyddyn ariannol 2018-2019. Mae'r naratif yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r rhaglenni sydd wedi'i diweddarau ar adeg cyhoeddi, felly nid yw'n cwmpasu'r un amserlen yn union. Mae hyn yn adeiladu ar adroddiadau blaenorol. Mae'r holl ddata yn yr adroddiad wedi'u darparu gan Adran Wybodeg Iechyd Cyhoeddus Cymru.

2 Crynodeb Cymru gyfan

Mae Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni'r saith rhaglen sgrinio genedlaethol sy'n seiliedig ar boblogaeth yng Nghymru ac yn rheoli'r Rhwydwaith Clinigol Sgrinio Cyn Geni. Mae safonau gofynnol ar gyfer nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio/cwmpas yn cael eu pennu ar gyfer pob un o'r rhaglenni sgrinio a reolir.

Tabl Crynodeb: Ffigurau nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio/cwmpas Cymru, 2018-19

	Nifer sy'n gymwys/a wahoddwyd	Nifer a brofwyd	Canran y rhai sy'n cael eu sgrinio/cwmpas	Newid o 2017-18
Y nifer a gafodd brawf Sgrinio Ymlediadau - Safon 80%	16,487	13,328	80.8%	+1.6%
Y nifer a gafodd brawf Sgrinio'r Fron - Safon 70%	145,428	100,472	72.5%*	-0.3%
Y nifer a gafodd brawf Sgrinio Coluddion - Safon 60%	280,556	160,652	57.3%	+1.6%
Cwmpas Sgrinio Serfigol - Safon 80%	260,247	173,547	73.2%*	+0.7%
Cwmpas Sgrinio Llygaid Diabetig - Safon 80%	175,320	118,409	67.5%	+1.0%
Sgrinio Clyw Babanod - Safon 95%	31,129	30,959	99.5%	+0.1%
Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig - Y safon yw i 95% o fabanod gael canlyniad sgrinio terfynol erbyn diwrnod 17 o fywyd	31,219	31,048	99.5%	+0.2%

Paratowyd gan Adran Wybodeg Iechyd Cyhoeddus Cymru

* Y niferoedd a gyflwynodd ar gyfer sgrinio serfigol a sgrinio'r fron yw nifer y menywod a wahoddwyd ac a brofwyd yn 2018-19. Mae ffigurau manylach, gan gynnwys y nifer sy'n cael eu sgrinio yn ôl Clwstwr Meddyg Teulu, ar gael drwy wefan pob rhaglen – gweler adran 12 am ddolenni

O gymharu ag adroddiad y flwyddyn flaenorol, mae pob un o'r rhaglenni sgrinio ac eithrio sgrinio'r fron wedi dangos gwelliant o ran nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio neu gwmpas ar gyfer 2018-2019.

Ar gyfer y Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol, y safon yw i 80% o ddynion sy'n cael eu gwahodd i dderbyn y cynnig. Ar ôl gostwng ychydig islaw'r safon hon yn 2017-18, mae canran y rhai sy'n cael eu sgrinio wedi gwella 1.6% eleni i 80.8% ac mae wedi cyrraedd y safon.

Mae'r Gwasanaeth Sgrinio'r Fron yn cael ei ddarparu gan unedau sgrinio'r fron symudol i leoliadau gwahanol ledled Cymru ac mae menywod yn cael eu gwahodd gan bractis meddyg teulu. Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â'r cylch diweddaraf sydd wedi'i gwblhau, felly'r tro diwethaf i fenywod ym mhob un o'r practisau meddyg

teulu gael eu gwahodd i gymryd rhan. Y safon yw bod 70% o fenywod a wahoddir yn cael eu sgrinio ac mae'r safon hon wedi'i chyrraedd. Eleni gostyngodd canran y rhai a gafodd eu sgrinio ychydig 0.3% i 72.5%.

Nid yw'r nifer sy'n cael prawf sgrinio coluddyn yn cyflawni'r targed 60%. Fodd bynnag, mae canran y rhai a gafodd eu sgrinio wedi cynyddu 1.6% eleni i 57.3% sydd, o ystyried bod hyn yn cynrychioli cynnydd o 3,058 o unigolion sy'n manteisio ar eu cynnig, yn welliant amlwg.

Mae cwmpas sgrinio serfigol ledled Cymru wedi'i ailgyfrifo eleni i ddangos y cwmpas sy'n addas i'r oedran ac mae'n dangos cyfran y menywod 25 i 49 oed sydd wedi cael prawf sgrinio serfigol yn y 3 blynedd diwethaf a menywod 50-64 oed sydd wedi cael prawf sgrinio serfigol yn y 5 mlynedd diwethaf. Nid yw'r safon wedi'i chyrraedd ond bu gwelliant bach o 0.7% o gymharu â'r llynedd. Dyma'r tro cyntaf i'r cwmpas ddangos gwelliant ers sawl blwyddyn.

Nid yw cwmpas Sgrinio Llygaid Diabetig yn cyrraedd y safon ond cafwyd gwelliant o 1% ers y flwyddyn flaenorol, sy'n cynrychioli 2,510 o unigolion ychwanegol a brofwyd.

Mae'r Rhaglenni Sgrinio Clyw Babanod Newydd-anedig a Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig wedi cyrraedd y safonau ac mae hyn yn gyson â blynyddoedd blaenorol.

Negeseuon allweddol o 2018-2019

- Cynigiwyd 940,386 o wahoddiadau sgrinio i'n poblogaeth gymwys yn 2018-2019¹
- Dechreuodd y broses o gyflwyno'r prawf imiwnocemegol ysgarthol (FIT) gwell ar gyfer y rhaglen sgrinio coluddion ym mis Ionawr 2019 a chyda gwerthusiad agos cafodd ei weithredu'n llawn fel y cynlluniwyd ym mis Medi 2019
- Mae'r Rhaglen Sgrinio Coluddion wedi cynnal nifer o fentrau sy'n anelu at wella nifer y rhai sy'n cael prawf sgrinio coluddyn a deall y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn sgrinio
- Cafodd cynlluniau eu datblygu, yn ôl cais gan y Prif Swyddog Meddygol i optimeiddio ein rhaglen sgrinio coluddion yn unol â gwell Blynyddoedd Bywyd a Addaswyd yn ôl Ansawdd
- Gwnaethom gynnal yr ymgyrch #caragegdygroth ar y cyfryngau cymdeithasol, sef dull arloesol i fynd i'r afael â rhwystrau i fenywod ifanc a'u hannog i fanteisio ar eu cynnig sgrinio serfigol
- Gwnaethom ddathlu 20 mlynedd o'r Rhaglen Sgrinio Serfigol gyda gweithwyr ieuchyd proffesiynol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen mewn diwrnod addysgol ym mis Hydref a myfyriwyd ar y rhaglen a thrafod datblygiadau yn y dyfodol
- Gweithredodd y Rhaglen Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig lythyrau canlyniadau yn uniongyrchol i rieni
- Llwyddodd carfannau o staff sgrinio o dair o'r rhaglenni sgrinio i gwblhau lefel 3 Diploma Hanfodion Sgrinio Iechyd a lefel 4 Diploma Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol gyda mwy o staff yn dilyn y diplomâu ar hyn o bryd

¹ Heb gynnwys sgrinio cyn geni

- Cynhaliodd Bron Brawf Cymru ddiwrnod addysgol ar gyfer sgrinio'r fron ym mis Medi a ddenodd siaradwyr rhyngwladol a chanolbwyntiodd ar ymchwil, datblygu a datblygiadau ym maes technolegau sgrinio canser y fron
- Gwnaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru adolygu a chyhoeddi polisi a safonau wedi'u diweddarau, a chynhaliwyd archwiliadau a gwaith gwella gyda chydweithwyr yn y byrddau iechyd
- Parhaodd y gwaith yn Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru i fuddsoddi yn y rhaglen bresennol a gwneud gwelliannau iddi, gweithio tuag at ddarpariaeth gwasanaeth cynaliadwy er gwaethaf twf parhaus yn y boblogaeth ddiabetig
- Er bod gwaith yr Adran Sgrinio o ddydd i ddydd yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau sgrinio diogel, effeithiol, mae datblygiad bob amser i'n gwaith. Mae cyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus yn cynnwys newidiadau polisi, technolegau newydd ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau

Anghydraddoldeb wrth gymryd rhan

Mae anghydraddoldeb wrth gymryd rhan mewn sgrinio wedi'i ddangos ledled Cymru, gyda chyfranogiad ar gyfer yr holl raglenni sgrinio i oedolion yn gostwng wrth i amddifadedd gynyddu. Mae'n bwysig nodi nad oes gwahaniaeth amlwg yn ôl amddifadedd yn y nifer a gafodd eu sgrinio ar gyfer y rhaglenni Sgrinio Clyw Babanod a Smotyn Gwaed Newydd-anedig, lle mae'r nifer a gafodd eu sgrinio yn uchel ar draws pob grŵp. Mae'r siart far isod yn dangos canran y rhai sy'n cael prawf yn ôl cwintel amddifadedd.


O gymharu â 2017-18, mae canran y rhai a gafodd brawf sgrinio coluddyn wedi cynyddu ar y cyfan. Mae canran y rhai a gafodd brawf wedi cynyddu ar draws pob cwintel, ac mae wedi cynyddu ychydig yn fwy yn y grwpiau mwyaf difreintiedig sy'n golygu bod y gwahaniaeth rhwng y grwpiau mwyaf a lleiaf difreintiedig wedi lleihau ychydig eleni. Roedd cynnydd pellach o 2% o ran canran y rhai a gafodd eu sgrinio o gymharu â'r flwyddyn flaenorol sy'n parhau â'r duedd o welliant yn y grŵp hwn.

Mae canran y rhai a gafodd brawf sgrinio wedi gostwng ychydig ar y cyfan ac mae'r bwlch anghydraddoldeb wedi cynyddu ychydig eleni.

Mae cwmpas sgrinio serfigol sy'n addas i'r oedran wedi cynyddu ychydig ar y cyfan ond mae'r bwlch rhwng y grwpiau mwyaf a lleiaf difreintiedig wedi cynyddu ychydig pan fydd y cwmpas mwy cywir hwn yn cael ei nodi.

Mae canran y rhai a gafodd eu sgrinio am ymlediadau aortig abdomenol wedi cynyddu ychydig ar draws yr holl grwpiau ond yn fwy ymhlith y cwintelau mwy difreintiedig, gan leihau'r bwlch anghydraddoldeb.

Eleni yw'r tro cyntaf i ni allu disgrifio'r anghydraddoldebau o ran nifer y rhai sy'n manteisio ar y rhaglen sgrinio llygaid diabetig. Mae anghydraddoldeb o ran nifer y rhai a gafodd eu sgrinio ond mae hyn ychydig bach yn llai na'r rhaglenni sgrinio eraill i oedolion.



Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn parhau'n flaenoriaeth allweddol i ni yn yr Adran Sgrinio. Eir i'r afael â'r gwahaniaethau annheg hyn yn strategol ac yn weithredol, gan weithio gyda phartneriaid a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r thema hon yn parhau drwy gydol yr adroddiad gan mai nod ein gwaith ymgysylltu, sy'n sail i'n holl newidiadau a datblygiadau, yw cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gwella mynediad at y gwasanaethau rydym yn eu darparu.

Gweithio gyda byrddau iechyd a phartneriaid eraill y GIG

Mae gan yr Adran Sgrinio Gytundeb Hirdymor gyda phob bwrdd iechyd ac mae hefyd yn prynu nifer o sesiynau ymgynghorol i gefnogi cyflwyno rhaglenni sgrinio'r fron, serfigol a choluddion. Ceir rhai pryderon ynghylch cynaliadwyedd a gallu ac adnoddau mewn rhai o'r ardaloedd lle mae byrddau iechyd yn darparu gwasanaethau y mae'r Adran Sgrinio yn dibynnu arnynt. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys radioleg y fron, colonosgopi a gwasanaethau colposgopi, a gwasanaethau patholeg, yn enwedig histoleg. Mae'r Adran Sgrinio yn darparu adroddiadau misol i'r bwrdd iechyd ar berfformiad yn erbyn safonau a bennwyd ar gyfer y gwasanaeth. Ceir problemau recriwtio mewn rhai disgyblaethau diagnostig allweddol, sy'n cyfyngu ar allu ac adnoddau ac yn cael effaith ar amseroldeb nifer o raglenni. Mae cydweithwyr yr Adran Sgrinio a'r byrddau iechyd yn cydweithio er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r problemau hyn.

3 Ymgysylltu â'r boblogaeth gymwys am sgrinio

3.1 Tîm Ymgysylltu â Sgrinio

Mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio yn gweithio ar draws yr holl raglenni sgrinio yng Nghymru. Mae'r tîm yn cynnwys un Arbenigwr Ymgysylltu â Sgrinio Arweiniol, pedwar Arbenigwr Ymgysylltu â Sgrinio a thri Ymarferydd Ymgysylltu â Sgrinio sy'n

cael eu cefnogi gan Weinyddwyr. Mae staff wedi'u lleoli'n rhanbarthol yng ngogledd, de-ddwyrain a de-orllewin Cymru.

Rôl y tîm yw cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid ac ar draws nifer o leoliadau yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o sgrinio a hyrwyddo dewis hyddysg mewn ardaloedd lle mae nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio yn isel. Mae'r tîm yn gweithio gyda chymunedau a rhaglenni i sicrhau bod gwasanaethau sgrinio yn gynhwysol ac yn hygyrch i'r boblogaeth gymwys ledled Cymru.

Gan weithio gyda chymunedau anodd eu cyrraedd, mae'r tîm yn ymgysylltu â phartneriaid i ddeall yn well pam nad yw pobl yn manteisio ar sgrinio pan fyddant yn cael eu gwahodd. Mae'r tîm hefyd yn ceisio nodi ymyriadau priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth y gellir eu mabwysiadu i leihau rhwystrau rhag sgrinio. Mae dealltwriaeth o'r gwaith hwn yn cael ei rhannu â rhaglenni sgrinio perthnasol er mwyn iddynt allu deall yn well yr heriau sy'n wynebu cymunedau/poblogaethau. Gall rhaglenni, o ganlyniad i'r gwaith hwn, ystyried cyfleoedd posibl i wella gwasanaethau sy'n hyrwyddo gwasanaeth mwy cynhwysol ac a allai, yn ei dro, greu profiad mwy cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Mae'r Adran Sgrinio wedi sefydlu Grŵp Cyfranogi. Mae'r swyddogaeth hon ar draws rhaglenni yn ceisio trafod cyfleoedd i ddarparu ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n ceisio gwella nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio, lleihau anghydraddoldebau iechyd ac annhegwch ym maes iechyd.

Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r holl raglenni sgrinio ar feysydd allweddol o waith gan gynnwys gweithredu newidiadau i raglenni, prosiectau moderneiddio rhaglenni, hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gwella'r broses o ddatblygu gwybodaeth i'r cyhoedd, profiad defnyddwyr gwasanaethau a gwella nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio ym mhob rhaglen.

Y tu allan i'r rhaglen waith, mae'r tîm wedi bod yn datblygu pecyn hyfforddi newydd yn y gymuned. Mae'r pecyn yn cynnwys dwy haen, sef yn gyntaf gweithio'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth o sgrinio. Mae'r ail haen yn cynnwys hyfforddi gweithwyr cyswllt yn y gymuned am sgrinio er mwyn iddynt allu mynd â'r wybodaeth hon yn ôl i'r cymunedau y maent yn gweithio ynddynt. Caiff y pecyn ymyriad byr hwn ei gyflwyno ar draws ardaloedd lle ceir cyfranogiad isel yn ystod 2020.

Mae'r tîm wedi bod yn gweithio gyda Thimau Gofal Sylfaenol mewn ardaloedd lle ceir cyfranogiad isel i sicrhau eu bod yn ymwybodol o sgrinio ac i'w hannog i ofyn am eu data lefel practis i lywio cynllunio lleol.

Yn genedlaethol, mae'r tîm yn parhau i weithio gyda'r rhaglenni a phartneriaid i wella'r daith sgrinio i bobl ag anabledd dysgu a'r rhai sy'n eu cynorthwyo. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau eu bod yn ymwybodol o adnoddau Hawdd eu Darllen sy'n benodol i sgrinio. Mae'r tîm hefyd yn cynorthwyo'r adran i gydlynu'r gwaith o gyflwyno hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anabledd Dysgu ar gyfer staff rheng flaen.

Mae'r tîm wedi bod yn cydweithio â Phrifysgol Abertawe sy'n cynnal prosiect ymchwil gyda'r cymunedau Roma, Sipsiwn, Teithwyr yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn wedi

canolbwyntio ar ganser, atal canser a sgrinio. Bydd canlyniad yr ymchwili yn llywio ymyriadau priodol efallai y bydd y tîm a'r adran ehangach yn dymuno eu datblygu yn ystod 2020.

Yn ne-ddwyrain Cymru mae'r tîm yn cefnogi prosiect cymunedol lleol a gynhelir gan Women Connect First. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar weithio gyda'r gymuned pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig leol mewn perthynas â hyrwyddo iechyd a llesiant. Yng ngogledd Cymru, mae prosiect lleol wedi'i gynnal gyda'r gymuned Bwylaidd. Mae'r tîm bellach yn archwilio cyfleoedd posibl o ganlyniad i'r gwaith hwn. Mae tîm de-orllewin Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r gymuned Tsieineaidd a darperir hyfforddiant yn lleol.

Cynhaliodd y tîm y seithfed a'r ymgyrch Sgrinio am Oes derfynol yn ystod mis Gorffennaf. Canolbwyntiodd yr ymgyrch hon ar y rhai sy'n ymgysylltu â'r rhaglenni am y tro cyntaf. Cafodd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio optimeiddio Facebook ei defnyddio a bu'n llwyddiannus iawn wrth rannu negeseuon sgrinio ledled Cymru.

3.2 Gwybodaeth i'r cyhoedd

Eleni mae'r Grŵp Gwybodaeth i'r Cyhoedd Rhanbarthol Craidd wedi adolygu ei Strategaeth Gwybodaeth i'r Cyhoedd ac mae wedi datblygu Pecyn Offer newydd Gwybodaeth i'r Cyhoedd i gynorthwyo staff wrth ddatblygu gwybodaeth o ansawdd uchel i'r cyhoedd. Mae Grwpiau Gwybodaeth i'r Cyhoedd y Rhaglen wedi adolygu adnoddau presennol gwybodaeth i'r cyhoedd ac maent yn datblygu adnoddau newydd i ddiwallu anghenion y gwasanaeth.

Mae gwybodaeth i'r cyhoedd yn cael ei datblygu ar y cyd a'i chydgynhyrchu â phartneriaid mewnol ac allanol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd uchel, gynhwysol a hygyrch yn cael ei pharatoi'n gyson. Ymgysylltir yn helaeth â'r cyhoedd a phartneriaid proffesiynol yn ystod y gwaith o ddatblygu, adolygu a phrofi gwybodaeth i'r cyhoedd. Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth i'r cyhoedd a baratoir gan yr adran o safon uchel, ac yn diwallu anghenion y gynulleidfa darged.

Yn sgil cyflwyno'r prawf sgrinio coluddion imiwnocemegol ysgarthol (FIT) newydd, mae'r rhaglen, gyda chymorth SET, wedi ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu rhanddeiliaid penodol gan gyfrannu at ddatblygu'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb FIT. Mae gweithgarwch ymgysylltu pellach wedi'i gynnal hefyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r adnoddau gwybodaeth i'r cyhoedd FIT newydd. Mae Sgrinio Coluddion Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Tîm Newid Ymddygiad o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru i adolygu'r llythyrau a'r taflenni a ddefnyddir amlaf.

Mae Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru wedi bod yn gweithio i adolygu eu llythyrau ac i ddatblygu eu taflen newydd sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei datblygu mewn partneriaeth â nifer o randdeiliaid i sicrhau bod y wybodaeth hon o ansawdd uchel ac yn briodol i'r gynulleidfa a fwriedir.

Mae Rhaglenni Sgrinio Mamau a Phlant a gefnogir gan SET wedi bod yn ymgysylltu â menywod i adolygu adnoddau gwybodaeth i'r cyhoedd ar gyfer y prawf cynenedigol anfewnwithiol (NIPT). Ledled Cymru cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws a

chyfweliadau i gefnogi'r gwaith hwn gyda chanlyniadau'r gwaith yn cael eu hystyried gan y gwasanaeth.

Mae'r Adran Sgrinio wedi bod yn gweithio i sicrhau bod yr holl wybodaeth bresennol a newydd i'r cyhoedd yn cael ei diweddarau i fodloni gofynion newydd Rheoliadau'r Gymraeg 2018. Mae gweithgor traws raglen wedi'i sefydlu gyda chymorth Tîm y Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae timau wedi bod yn nodi systemau a dulliau i hyrwyddo'r Gymraeg yn eu maes gwasanaeth. Mae staff wedi bod yn manteisio ar gyfleoedd i ddysgu ac ymarfer eu sgiliau Cymraeg, wedi'u hannog gan yr Adran ehangach.

Mae'r Adran Sgrinio yn parhau i baratoi gwybodaeth i'r cyhoedd mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch. Mae'r wybodaeth ar gael yn Gymraeg, Saesneg, mewn fersiwn hawdd ei darllen, gyda llawer hefyd mewn fersiwn sain ac Iaith Arwyddion Prydain, gyda chyfleuster i gyfieithu Braille a phrint bras yn gyflym ar gais.

3.3 Ymgysylltu â phobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth


Mae ein Hadran Sgrinio yn cydnabod pwysigrwydd gwrandao ar ein defnyddwyr gwasanaethau i'n helpu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl. Yn ogystal â gwella profiad y rhai sy'n cymryd rhan, gall helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r rhaglenni os ydym yn gwrandao ac yn gwneud ein gwasanaethau mor hygyrch a derbyniol ag y gallwn.

Er bod aeddfedrwydd y gwaith Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau yn amrywio rhwng rhaglenni, erbyn hyn mae gan y mwyafrif ddull i ddefnyddwyr gwasanaethau roi adborth ac i'r rhaglen ystyried yr hyn mae'n ei glywed a gweithredu arno. Ar gyfer y flwyddyn i ddod, rydym yn bwriadu edrych ar sut y gallwn sicrhau bod ein holl rhaglenni sgrinio yn gallu casglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn rheolaidd, gwrandao a gweithredu ar yr adborth a thrwy hynny wella ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn. Byddwn hefyd yn gweithredu'r cwestiynau craidd diwygiedig ar gyfer profiad defnyddiwr gwasanaethau fel y'u cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn 2018-19, o'r tri chwestiwn craidd y gofynnodd rhaglenni amdanynt:

- dywedodd 95% o bobl iddynt gael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad hyddysg
- dywedodd 96% o bobl fod staff yn gwrtais ac yn ofalgar
- dywedodd 95% o bobl iddynt gael profiad da

Cesglir adborth drwy holiaduron, cwynion a chanmoliaethau, a chesglir straeon cleifion hefyd. Mae straeon cleifion yn ddefnyddiol i'r rhaglenni ddysgu ganddynt a helpu gydag ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid eraill. Mae adroddiadau Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau yn cael eu trafod mewn byrddau rhaglenni a chyfarfodydd tîm uwch reolwyr ac mae'r gwersi sy'n cael eu dysgu yn cael eu rhannu ar draws y rhaglenni ac yn ehangach yn y sefydliad. Mae gan yr Adran Sgrinio Grŵp Profiad Defnyddwyr



Gwasanaethau lle mae aelodau o bob rhaglen sgrinio yn cyflwyno eu hadborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, eu cynlluniau ar gyfer datblygu a lle y mae dysgu yn cael ei rannu ar draws rhaglenni.

3.4 Ymgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol am sgrinio

Er bod ein holl raglenni'n cael eu darparu mewn ffyrdd gwahanol, un ffactor cyson yw na allem ddarparu'r hyn rydym yn ei ddarparu heb weithio agos gyda chydweithwyr yn y GIG ehangach, yn enwedig gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol. Er bod eu rôl uniongyrchol mewn sgrinio'n amrywio rhwng rhaglenni (e.e. cynnal sgrinio serfigol yn Sgrinio Serfigol Cymru o'i gymharu â derbyn canlyniadau yn Sgrinio Coluddion Cymru) mae rôl bwysig wrth godi ymwybyddiaeth ac ateb cwestiynau cleifion ar draws yr holl raglenni. Mae tystiolaeth hefyd i ddangos pwysigrwydd cymeradwyaeth meddyg teulu o ran annog pobl i gymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio².

Ein cydweithwyr yn y timau iechyd cyhoeddus lleol yw ein prif gyswllt â'r clystyrau meddygon teulu, gyda'u gwybodaeth leol a'u cysylltiadau lleol. Mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio'n anfon diweddariad blynyddol i gysylltiadau yn y timau iechyd cyhoeddus lleol er gwybodaeth iddynt ac mae'n gweithio'n agos gyda nhw mewn perthynas â sgrinio i helpu i lywio sgysiau â chlystyrau. Mae'r diweddariad yn rhoi manylion am ddatblygiadau ac mae'n cynnwys y ffigurau diweddaraf sydd ar gael am y nifer sy'n cael prawf ar lefel clwstwr. Mae'r tîm hefyd yn gallu rhoi data lefel practis meddyg teulu yn uniongyrchol i bractisau ar gais, er mwyn helpu i lywio eu gwaith.

Mae atal cancer a chanfod cancer yn gynnar yn ddwy o'r blaenoriaethau allweddol yn y Cynllun Cyflawni Cancer ar gyfer Cymru³, sy'n cael ei sbarduno gan y Grŵp Gweithredu ar Ganser. Mae ein rhaglenni sgrinio cancer yn bartneriaid allweddol yn y gwaith hwn.

3.5 Ymgysylltu â phartneriaid trydydd sector

Mae gan yr holl raglenni sgrinio gysylltiadau â'r trydydd sector. Mae'r gwaith ar y cyd yn cynnwys help gyda chodi ymwybyddiaeth gan elusennau'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn gysylltiedig â'r hyn rydym yn sgrinio ar ei gyfer, yn ogystal â chynnwys mewn datblygiadau rhaglen, er enghraifft help gyda gwybodaeth i'r cyhoedd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Sgrinio Coluddion Cymru wedi bod yn cynorthwyo hwyluswyr Ymchwil Cancer y DU gan weithio gyda chlystyrau meddyg teulu mewn rhai o'r Byrddau Iechyd yn ne Cymru i gynyddu nifer y rhai sy'n cael prawf sgrinio'r coluddyn. Mae'r rhaglen hwylusydd CRUK yn darparu hyfforddiant ar ymyriadau sydd wedi'u profi i gynyddu nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio, gan gynnwys:

- Hyfforddiant ar gyfer staff nad ydynt yn glinigol i siarad yn gyfrinachol am sgrinio coluddion
- Dosbarthu cerdyn gwybodaeth i gleifion sy'n dymuno ailarchebu eu prawf

² GP endorsement: Hewitson et al. Br J Cancer 2011 9 Awst;105(4):475-80 DOI: 10.1038/bjc.2011.255

³ Ar gael yn: <http://www.walescanet.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1113/161114cancerplanen.pdf>

- Pecynnau sampl drwy'r post i weithwyr iechyd proffesiynol eu trafod er mwyn iddynt allu ateb cwestiynau cleifion yn well

Mae Ymchwil Canser y DU hefyd wedi dosbarthu canllaw arfer da i bob practis meddyg teulu yng Nghymru gyda'r nod o gynorthwyo'r broses o gynyddu nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio.

Mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio yn rhanddeiliad allweddol yn 'Iechyd Menywod yn Gyntaf', prosiect a reolir gan y sefydliad trydydd sector yng Nghaerdydd, Women Connect First. Nod y prosiect yw gwella iechyd a llesiant pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig drwy gynyddu eu cyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol a chymdeithasol a lleihau'r rhwystrau posibl o ran cael mynediad i wasanaethau gofal iechyd. Mae sesiynau ymwybyddiaeth o sgrinio wedi'u cynnal i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o sgrinio a chynyddu hyder o ran cael mynediad i wasanaethau.

Gwaith craidd y Tîm Ymgysylltu â Sgrinio yw gweithio ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o sgrinio a gwybodaeth amdano mewn cymunedau lleol. I wneud hyn mae'r tîm yn darparu hyfforddiant cymunedol, yn mynd i ddigwyddiadau rhwydweithio cymunedol, yn darparu adnoddau ac yn cynnal mentrau lleol mewn cydweithrediad â sefydliadau'r trydydd sector ledled Cymru. Mae'r tîm yn dibynnu ar rhwydweithiau trydydd sector lleol i rannu negeseuon sgrinio yn eu cymuned ehangach ac maent wedi meithrin partneriaethau cryf dros y blynyddoedd i wneud hyn.

4 Bron Brawf Cymru

Nod: Nod y rhaglen sgrinio'r fron yw lleihau afiachusrwydd a marwolaeth o ganser y fron. Gwneir hyn drwy ganfod cancer yn gynnar gan alluogi triniaeth brydlon.

Targed: Y safon ofynnol yw bod 70% o fenywod a wahoddir yn mynd i gael eu sgrinio a'r targed yw 80%.

Mae Bron Brawf Cymru wedi dangos perfformiad cryf o ran cyhoeddi canlyniad normal o fewn dwy wythnos i sgrinio'r fron ac o ran cyflawni'r targed hyd rownd, sef 36 mis. Mae'r rhaglen yn parhau i ddangos cyfraddau canfod cancer uchel. Mae cyflawni'r targed ar gyfer amseroedd aros clinig asesu yn parhau i fod yn heriol, y targed yw cynnig apwyntiad i fenywod o fewn tair wythnos i'r apwyntiad mamogram cychwynnol. Fodd bynnag, ceir amrywiadau rhanbarthol o ran prydlongdeb sydd oherwydd lefelau staffio a diffyg gallu ac adnoddau yn y gweithlu meddygol. Un o'r heriau mwyaf a wynebwr gan y gwasanaeth yw prinder cenedlaethol y gweithlu arbenigol. Mae Bron Brawf Cymru yn gweithio ar nifer o fentrau er mwyn sicrhau bod gan y rhaglen weithlu cynaliadwy addas at y diben yn y dyfodol.

Sgrinio'r fron



Pwy: Menywod 50-70 oed (dros 70 os byddwch yn gofyn)

Pryd: Pob 3 blynedd

Y prawf: Pelydr-x o'r bronnau



www.breasttestwales.wales.nhs.uk

Y Gogledd: 01492 860888

Y De-dwyrain: 029 2039 7222

Y Canolbarth a'r Gorllewin: 01792 459988

Canran y rhai a gafodd eu sgrinio yng Nghymru[∞] (2018-19): 72.5%

(Cymru 2017/18 – 72.8%)

Cafwyd gostyngiad bychan arall yng nghanran y rhai sy'n cael eu sgrinio ar gyfer mamograffeg yng Nghymru yn 2018-19. Y safon ofynnol yw 70%. Yng Nghymru, canran y rhai a gafodd eu sgrinio ar gyfer y rownd ddiweddaraf a gwblhawyd yw 72.5%. Mae Bron Brawf Cymru yn gweithio i wella canran y rhai sy'n cael eu sgrinio ac mae wrthi'n edrych ar sut y gall cyfathrebu digidol fel negeseuon testun helpu i ddarparu'r gwasanaeth yn well yn y dyfodol.

Mae Bron Brawf Cymru wedi paratoi nifer o archwiliadau o ansawdd uchel dros y deuddeg mis diwethaf gan edrych ar nifer o feysydd gwahanol o ymarfer clinigol i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth diogel, o ansawdd uchel.

Mae gan y rhaglen fframwaith sefydledig yn ei le er mwyn mesur profiad y defnyddiwr gwasanaethau ar gyfer y llwybrau sgrinio ac asesu. Mae sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn cael eu coladu yn fisol ac maent yn rhoi adborth ar amrywiaeth eang o faterion o ansawdd y cyfathrebu (llythyrau, taflenni a llafar) hyd at leoliad a rhwyddineb mynediad i unedau sgrinio'r fron, yn ogystal ag amseroedd apwyntiad.

Mae'r adroddiad ystadegol blynyddol nesaf i'w gyhoeddi ar 12 Mawrth 2020. Mae hyn, a'r adroddiadau blaenorol, ar gael yma:

<http://www.breasttestwales.wales.nhs.uk/adroddiadau-1>

∞ mae'r ganran a gafodd eu sgrinio yma ar gyfer y cylch mwyaf diweddar a gwblhawyd ac nid y flwyddyn 2018-19. O ganlyniad ni fydd y ffigur yma yr un peth â'r hyn a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol Bron Brawf Cymru 2018-19 a gyhoeddir ar 12 Mawrth 2020

5 Sgrinio Coluddion Cymru

Nod: Nod y rhaglen sgrinio coluddion yw lleihau afiachusrwydd a marwolaeth o ganser y coluddyn. Gwneir hyn drwy ganfod canserau'n gynnar a thynnu polypau i atal canserau rhag datblygu.

Targed: Y targed yw bod 60% o'r dynion a'r menywod a wahoddir yn cymryd rhan mewn sgrinio.

Nid yw'r ganran sy'n cael prawf sgrinio coluddyn yn cyflawni'r targed 60% yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r ganran wedi cynyddu 1.6% eleni. Mae'r cynnydd hwn yn dilyn nifer o fentrau gan gynnwys:

- **Ymgyrch hysbysebu Bod yn Glir am**

Ganser: Ar ddechrau 2018, gwnaeth Sgrinio Coluddion Cymru ac Ymchwil Canser y DU gynnal ymgyrch 'Bod yn Glir am Ganser' ar y teledu, yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol. Arweiniodd hyn at gynnydd yng nghanran y rhai a gafodd brawf sgrinio'r coluddyn, gan ragori ar y safon o 60% yn ystod mis

Sgrinio'r coluddyn

Pwy: Dynion a menywod 60 i 74 oed

Pryd: Bob 2 flynedd

Y prawf: Pecyn prawf wedi'i gwblhau gartref a'i ddychwelyd drwy'r post

 www.bowelscreening.wales.nhs.uk
 0800 294 3370




Canran y rhai a gafodd eu sgrinio yng Nghymru (2018-19): 57.3%

(Cymru 2017/18 – 55.7%)

Medi-Tachwedd 2018. Gwelsom fod lefel uchel o ymwybyddiaeth o sgrinio coluddion eisoes. Mae angen mynd i'r afael ymhellach â chredoau ac agweddau

- **Swyddog Allgymorth Cymunedol:** Mae Sgrinio Coluddion Cymru yn gweithio ar y cyd â sefydliad trydydd parti i roi gweithiwr allgymorth mewn rhan o Gymru lle mae nifer y rhai sy'n cael prawf sgrinio'r coluddyn yn isel iawn. Bydd y fenter hon yn rhoi dealltwriaeth o'r rhesymau pam y mae unigolion yn amharod i gael prawf sgrinio a phenderfynu beth y gellir ei wneud i oresgyn y rhwystrau hyn
- **Cymeradwyaeth gofal sylfaenol:** Mae tystiolaeth wedi dangos bod cymeradwyaeth i sgrinio gan feddygon teulu yn helpu i gynyddu cyfranogiad mewn sgrinio coluddion. Mae Sgrinio Coluddion Cymru yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes gofal sylfaenol i gyflwyno llythyrau cymeradwyaeth ar gyfer sgrinio canser y coluddyn ledled Cymru
- **Gwybodaeth am y rhai nad ymatebodd mewn gofal sylfaenol:** Ers mis Mawrth 2018 rydym yn darparu gwybodaeth i bractisau meddygon teulu am gleifion o'u practisau nad ydynt wedi ymateb i'w gwahoddiad i sgrinio'r coluddyn

Profion Imiwnocemegol Ysgarthol (FIT)

Mae Sgrinio Coluddion Cymru wedi bod wrthi'n cynllunio ar gyfer cyflwyno prawf sgrinio newydd yn ystod 2018 a llwyddodd i gyflwyno'r pecyn FIT newydd hwn o fis Ionawr 2019 fel prawf wedi'i gyflwyno'n raddol. Mae'r pecyn FIT hwn yn fwy sensitif ac yn haws i bobl ei gwblhau. Mae tystiolaeth o'r Alban a Lloegr wedi dangos bod y prawf newydd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio, gyda mwy o bobl yn cyflwyno'r pecyn i'w brofi. Yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ac ar gais Llywodraeth Cymru rydym wedi datblygu cynlluniau i optimeiddio rhaglen sgrinio coluddion erbyn 2023.

Mae **Amseroedd Aros Colonosgopi** yn parhau'n broblem sylweddol i rai byrddau iechyd, gan arwain at oedi o ran amseroldeb diagnosis i'r rhai sydd wedi cael canlyniadau prawf positif. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i gefnogi'r gwelliant i'r amseroedd aros hyn ac mae pob bwrdd iechyd yn datblygu strategaethau tymor byr, canolig a hirdymor i ddelio â'r mater hwn. Er mwyn cynorthwyo â hyn, mae Rhaglen Endosgopi Genedlaethol wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru sydd wedi cael y dasg o ymchwilio i ddulliau o wella gallu ac adnoddau ar draws y gwasanaeth endosgopi ledled Cymru.

Mae'r adroddiad ystadegol blynyddol nesaf i'w gyhoeddi ar 13 Chwefror 2020. Mae hyn, a'r adroddiadau blaenorol, ar gael yma:

<http://www.bowelscreening.wales.nhs.uk/adroddiadau-ystadegol>

6 Sgrinio Serfigol Cymru

Nod: Lleihau nifer yr achosion o ganser serfigol a'r marwolaethau o ganlyniad iddo.

Mae hyn drwy ganfod a thrin newidiadau yn y groth cyn iddynt ddod yn ganser.

Targed: Y targed yw i 80% o fenywod cymwys gymryd rhan yn y rhaglen sgrinio.

Y cwmphas wedi'i addasu i oedran sgrinio serfigol ledled Cymru oedd 73.2%. Mae hyn yn gynnydd bach ers y flwyddyn flaenorol, sef 72.5%.

Mae'r rhaglen wedi bod yn gwneud gwaith penodol gyda'r tîm ymgysylltu i archwilio'r rhesymau pam mae menywod iau yn mynychu prawf sgrinio neu'r rhesymau am beidio â gwneud hyn, yn enwedig ers i'r terfyn oed is gael ei godi. Cynhaliwyd ymgyrch i fynd i'r afael â rhai o'r rhesymau dros ddiffyg presenoldeb (embaras, cywilydd y corff a charu pob rhan o'ch corff) ar cyfryngau cymdeithasol rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2019 gyda'r hashnod #caragegdygroth. Targedwyd menywod 25–30 oed ac roedd yr ymgyrch wedi'i rheoli ar y cyd gan Sgrinio Serfigol Cymru a thîm cyfathrebu Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cwblhaodd Sgrinio Serfigol Cymru ei waith o ehangu sgrinio sylfaenol ar gyfer y Feirws Papiloma Dynol ym mis Medi 2018, sef y gyntaf o wledydd y DU i gyflwyno sgrinio sylfaenol HPV yn llawn ar gyfer y boblogaeth gymwys gyfan. Roedd hyn yn dilyn llwyddiant yr astudiaeth weithredu gan ddefnyddio sgrinio sylfaenol HPV a oedd yn cynnwys 20% o fenywod yn cael eu gwahodd o fis Ebrill 2017. Gwnaed gwerthusiad llawn, gan gynnwys gwybodaeth ansoddol gan weithwyr iechyd proffesiynol a menywod sy'n rhan o'r peilot, a gyfrannodd at y cynllun ymgynnull i gyflwyno'n llawn. Mae pob menyw yng Nghymru bellach yn cael profion HPV ar gyfer mathau risg uchel HPV fel eu prawf sgrinio cyntaf, ac os yw'r prawf hwn yn dangos presenoldeb HPV mae'r sampl yn cael ei brofi gan ddefnyddio sytoleg.

Mae cronfa ddata Archwiliad Sgrinio Serfigol Cymru o Ganser Ceg y Groth (CSWACC) yn cadw pob diagnosis o ganser ceg y groth i fenywod sy'n byw yng Nghymru. Mae'r holl achosion yn cael eu hadolygu gan yr arweinydd clinigol, gan edrych ar fanylion y canser gan gynnwys camau, ac a gawsant eu canfod drwy'r rhaglen sgrinio. Maent hefyd yn ystyried yr holl elfennau yn llwybr sgrinio'r fenyw ac a ydynt wedi digwydd fel y dylent, e.e. llythyrau gwahoddiad yn cael eu hanfon i'r cyfeiriad cywir ac ati. Bydd Arweinydd Clinigol Sgrinio Serfigol Cymru yn ysgrifennu at glinigydd trin y fenyw ac yn gofyn ei fod yn ei hysbysu bod adolygiad wedi'i gynnal, ac yn gofyn iddi gysylltu â Sgrinio Serfigol Cymru os hoffai drafod y canlyniad. Mae nifer o fenywod yn derbyn yr opsiwn hwn, a threfnir cyfarfodydd ar gyfer lleoliad cyfleus sy'n agos at y fenyw. Bydd cynrychiolwyr Sgrinio Serfigol Cymru bob amser yn cynnwys naill ai

Sgrinio serfigol



Sgrinio Serfigol Cymru
Cervical Screening Wales

Pwy: Menywod 25-64 oed


Pryd: Pob 3 blynedd

(25-49 oed)

Pob 5 mlynedd

(50-64 oed)

Y prawf: Prawf ceg y groth



www.cervicalscreeningwales.wales.nhs.uk



Y Gogledd: 01352 877899

Y De-dwyrain: 029 2078 7910

Y Canolbarth a'r Gorllewin: 01792 940940

Cwmpas Cymru (2018/19): 73.2%

(Cymru 2017/18 – 72.5%)

mwyn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio ei lansio ym mis Mai 2018.

Elfen angenrheidiol allweddol o'r rhaglen yw atgyfeirio i wasanaethau fasgwlaidd diogel, effeithiol ar ôl canfod ymlediadau mawr neu fawr iawn. Mae gan Gymdeithas Fasgwlaidd Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon set glir o safonau a fabwysiadwyd gan y rhaglen⁴. Cyn rhoi'r rhaglen sgrinio ar waith, cytunodd yr holl fyrddau iechyd y byddent yn gweithio tuag at ddatblygu tri rhwydwaith fasgwlaidd yng Nghymru. Agorodd rhwydwaith fasgwlaidd Gogledd Cymru eu theatr hybrid a chafodd ei chanoli ar safle Ysbyty Glan Clwyd ym mis Ebrill 2019. Mae cynnydd amrywiol yn rhwydweithiau fasgwlaidd y De-ddwyrain a'r De-orllewin. Ym mis Chwefror 2019, cafodd yr adroddiadau sicrhau ansawdd eu cylchredeg i Lywodraeth Cymru, Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Gweithredol yr holl fyrddau iechyd sy'n cymryd rhan yn y tri rhwydwaith fasgwlaidd rhanbarthol. Dyma ein prif bryder ar gyfer y rhaglen. Mae'r adroddiad ystadegol blynyddol nesaf i'w gyhoeddi ar 30 Ionawr 2020. Mae hyn, a'r adroddiadau blaenorol, ar gael yma:

<http://www.aascreening.wales.nhs.uk/adroddiadau-ystadegol>

8 Rhaglenni Sgrinio Mamau a Phlant

Mae'r tair Rhaglen Sgrinio Mamau a Phlant bellach yn cael eu rheoli fel un uned. Mae hyn yn hwyluso trefniadau rhannu arfer da ac yn galluogi trefniadau dysgu a gweithio ar draws y tair rhaglen lle mae'r boblogaeth darged yr un peth.

Sgrinio Cyn Geni Cymru

Cynhelir y rhaglen sgrinio cyn geni er mwyn canfod cyflyrau difrifol penodol yn y fam neu'r baban sy'n debygol o gael effaith niweidiol ar iechyd y naill neu'r llall, a lle mae ymyriad effeithiol ar gael.

Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n cynnal Sgrinio Cyn Geni Cymru, y rhwydwaith clinigol a reolir ar gyfer sgrinio cyn geni yng Nghymru. Rôl y rhwydwaith yw sefydlu polisïau, safonau a fframwaith ar gyfer rheoli perfformiad sgrinio cyn geni.

Sgrinio cyn geni

Sgrinio Cyn Geni Cymru
Antenatal Screening Wales

Pwy: Pob menyw
Pryd: Yn ystod beichiogrwydd
Y prawf: Profion gwaed a sgan uwchsain



 www.antenatalscreening.wales.nhs.uk

Bu hon yn flwyddyn brysur i'r rhaglen. Disgrifir enghreifftiau isod o'r gwaith a wnaed. Ceir rhagor o wybodaeth yn adroddiad blynyddol diweddaraf Sgrinio Cyn Geni Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019, sydd ar gael yn:

<http://www.antenatalscreening.wales.nhs.uk/professional/dogfen/352790>

- Mae adolygiad llawn o Bolisïau, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi'i gynnal a chafodd ei gyhoeddi ym mis Awst 2019. Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi mabwysiadu polisïau, safonau a phrotocolau Sgrinio Cyn Geni

⁴ Canllawiau VSGBI: <https://www.vascularsociety.org.uk/search/?q=povs%202015>

Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod gan fenywod fynediad teg i wasanaethau arfer gorau ledled Cymru

- Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â grŵp eang o randdeiliaid ledled Cymru a'r DU i fonitro'r safonau a'r protocolau ar gyfer sgrinio cyn geni
- Cafodd archwiliad i fonitro pa mor gyflawn oedd y cardiau cais ar gyfer crymangelloedd a thalasaemia ei gynnal yn labordai'r byrddau iechyd yn ystod mis Gorffennaf 2018. Lluniodd Sgrinio Cyn Geni Cymru gymorth addysgu ar gyfer cydlynwyr sgrinio cyn geni
- Mae gwerthusiad o'r llwybr sgrinio newydd ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau mewn beichiogrwydd unigol a gefeilliaid yng Nghymru yn mynd rhagddo. Cyflwynwyd y cynnig o Brawf Cyn Geni Anfewnwithiol fel prawf wrth gefn ar gyfer beichiogrwydd babanod unigol tebygolrwydd uwch o 30 Ebrill 2018
- Mae'r gwaith monitro chwemisol o'r mesuriadau uwchsain ar gyfer pob prawf sgrinio syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau, drwy'r Gwasanaeth Cefnogi Sicrwydd Ansawdd Syndrom Down (DQASS) yn mynd rhagddo a chaiff y canlyniadau eu hadrodd yn ôl i'r sonograffwyr unigol drwy Sgrinio Cyn Geni Cymru

Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru

Nod y rhaglen Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig yng Nghymru yw cynnig prawf sgrinio ansawdd sicr i'r holl fabanod cymwys, yn bum diwrnod oed, ar gyfer cyflyrau difrifol a fyddai'n cael budd o ymyriad cynnar a lleihau marwolaethau a/neu afiachedd o'r clefyd. Mae'r prawf yn cynnwys cymryd sampl bach o waed a gymerir o sawdl y baban rhwng pumed ac wythfed diwrnod ei fywyd. Mae'r prawf sgrinio'n rhan o ofal ôl-enedigol rheolaidd. Cymerir hwn fel arfer gan y fydwraig gartref, neu yn yr ysbyty.

Yng Nghymru, yn unol ag Argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU, y cyflyrau sy'n cael eu sgrinio ar hyn o bryd yw isthyroidedd cynhenid, ffibrosis systig, anhwylderau crymangelloedd, ac anhwylderau metabolig etifeddol (ffenylcetonwria, diffygiant dehydrogenas asyl-CoA cadwyn ganolig, asidwria glwtarig teip 1, homosystinwria, asidemia isofalerig a chlefyd wrin surop masarn).

Yn 2018-19, cafodd 31,048 o fabanod eu profi, sef 99.5% o'r boblogaeth gymwys. cafodd 55 o fabanod â chyflyrau difrifol eu nodi. Ceir rhagor o wybodaeth yn

Sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig

Pwy: Pob babi newydd-anedig
Pryd: 5 diwrnod ar ôl yr enedigaeth
Y prawf: Gwaed o sawdl y babi



 www.newbornbloodspotsscreening.wales.nhs.uk

Ledled Cymru, cafodd **99.5%** o fabanod cymwys eu profi yn 2018-19.

adroddiad Blynyddol Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru, sydd ar gael yn: <http://www.newbornbloodspotscreening.wales.nhs.uk/adroddiad-blynyddol>

Un o'r gwelliannau a wnaed o fis Chwefror 2019 oedd cyflwyno'r drefn o anfon llythyrau canlyniadau yn uniongyrchol at y rhieni. Mae hyn wedi gwella'r broses oherwydd yn flaenorol roedd y canlyniadau'n cael eu hanfon o'r labordy drwy'r adrannau iechyd plant at yr ymwelwyr iechyd.

Un o'r heriau mwyaf i'r rhaglen o hyd yw ansawdd samplau smotyn gwaed a geir yn y labordy. Mae'n bwysig osgoi oedi a achosir gan yr angen i ailadrodd samplau, oherwydd yr angen am ddiagnosis a thriniaeth gyflym gyda'r nod o atal canlyniadau difrifol ar gyfer y babi. Mae cael sampl o ansawdd uchel y tro cyntaf yn gwella'r profiad i rieni a babanod. Mae'r rhaglen wedi rhoi nifer o fentrau yn eu lle gyda'r byrddau iechyd, gan weithio gyda Phenaethiaid Bydwreigiaeth, Arweinwyr Llywodraethu, Unedau Newyddenedigol ac Ymwelwyr Iechyd. Mae'r gyfradd ailadrodd y mae modd ei hosgoi wedi gwella'n sylweddol ledled Cymru ac er nad yw'n cyrraedd y safon ledled Cymru, mae rhai byrddau iechyd wedi cyrraedd y safon.

Sgrinio Clyw Babanod Cymru

Nod y rhaglen hon yw nodi babanod â nam sylweddol ar y clyw sy'n ddigon sylweddol i achosi anabledd neu achosi anabledd o bosibl. Mae cael gwybod yn gynnar yn golygu y gellir cynnig cymorth a gwybodaeth yn gynnar. Cynigir prawf sgrinio i'r holl fabanod y mae eu mamau'n byw yng Nghymru yn ystod pedair wythnos gyntaf eu hoes.

Mae nifer y rhai sy'n cael prawf yn parhau i fod yn uchel iawn heb anghydraddoldeb canfyddadwy yn ôl amddifadedd. Mae'r rhaglen yn parhau i berfformio'n dda iawn ac mae'n cyrraedd y safonau llym a osodwyd. Mae'r adroddiad ystadegol blynyddol nesaf i'w gyhoeddi ar 26 Mawrth 2020. Gellir dod o hyd i'r adroddiadau blaenorol yma:

http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/980/page/54171#ANNUAL_REPORTS

Mae'r diploma mewn sgrinio iechyd yn rhan bwysig o'r rhaglen addysg a hyfforddiant Sgrinio Clyw Babanod ac mae hyn yn cael ei gyflwyno ar draws y rhaglen gyda'r garfan gyntaf yn llwyddo i gyflawni eu diplomâu yn hanfodion sgrinio iechyd.

Yn dilyn adolygiad o'r gweithlu mae rolau uwch sgrinwyr newydd wedi'u sefydlu. Mae'r rôl hon yn galluogi ein gweithlu medrus i ddatblygu a derbyn cyfrifoldebau ychwanegol i gynnwys mentoriaeth sgrinwyr, hyfforddi staff newydd, adolygiadau gan gymheiriaid a chymorth technegol ar gyfer yr offer.

**Sgrinio clyw
babanod**



Pwy: Pob babi newydd-anedig

Pryd: O fewn 4 wythnos i'r enedigaeth

Y prawf: Prawf clyw



 www.newbornhearingscreening.wales.nhs.uk

 Y Gogledd: 01978 727005 Y De-ddwyrain: 029 2184 3568

 Y Canolbarth a'r Gogledd: 01656 754085

**Canran y rhai sy'n cael eu sgrinio
Cymru Gyfan: 99.5%**
(Cymru Gyfan 2017-18 – 99.4%)

Mae gan y gwasanaeth raglen i gyflwyno offer newydd yn lle hen offer ac mae'r rhaglen hon wedi'i chwblhau'n llwyddiannus.

Mae'r gwasanaeth mewn ysbytai ac yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr byrddau iechyd i gynnal safonau ar draws y llwybr sgrinio a diagnostig.

9 Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru

Nod: Nod y rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig yw lleihau achosion o golli golwg oherwydd retinopathi diabetig. Mae'r gwasanaeth yn bodoli i nodi retinopathi diabetig ar gam cynnar, cyn iddo ddod yn symptomatig, i atal colli golwg yn barhaol.

Mae'r rhaglen yn cynnig sgrinio i'r holl bobl sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru sydd wedi cael diagnosis a gadarnhawyd o ddiabetes ac sy'n 12 oed neu'n hŷn. Oherwydd bod diabetes yn effeithio ar bobl o bob oed, Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yw'r unig raglen sgrinio genedlaethol sy'n cwmpasu plant ac oedolion. Mae atgyfeirio i'r rhaglen digwydd gan feddyg teulu'r claf pan fydd diagnosis o ddiabetes wedi ei wneud.


Sgrinio llygaid diabetig

**Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru**
Diabetic Eye Screening Wales

Pwy: Pawb dros 12 oed sydd â diabetes

Pryd: Pob blwyddyn

Y prawf: Ffotograffau o'r llygaid



 www.eyecare.wales.nhs.uk/DRSSW

 01443 844244

Canran y rhai sy'n cael eu sgrinio Cymru
Gyfan: 67.5%

(Cymru Gyfan 2017-18 – 66.5%)

yn

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gwasanaeth wedi parhau i weithredu cynllun moderneiddio sy'n ceisio gwneud gwelliannau pellach o ran:

- Gweithdrefnau a pholisïau gweithredu safonol er mwyn sicrhau cysondeb
- Gweithdrefnau cadarn a diogel a sicrhau ansawdd
- Lleihau amseroedd aros y gwasanaeth, gan wella tegwch mynediad
- Gwybodaeth glir, ddealladwy a chefnogol i'r cyhoedd

Fel rhan o'n cynllun moderneiddio, rydym wedi:

- Gweithredu strwythur rheoli gwasanaeth newydd; helpu i ddarparu gwell cymorth i'n sgrinwyr, datblygu ein staff gweinyddu llwybrau a gwella eglurder rolau a chyfrifoldebau ar draws y gwasanaeth
- Cyflwyno system ffôn newydd yn lle'r hen system, er mwyn gwella profiad y galwr ac amseroedd ymateb dros y ffôn
- Cwblhau ail gam ein rhaglen i gyflwyno faniau newydd yn brydlon ac yn unol â'r gyllideb
- Cefnogi'r broses o hyfforddi a datblygu staff, yn enwedig ar gyfer y ddwy garfan gyntaf o sgrinwyr a gwblhaodd eu diplomâu hanfodion sgrinio iechyd yn llwyddiannus
- Sicrhau newid unffurf i'n staff sgrinio
- Lansio llythyrau apwyntiad clinig newydd, a gwneud gwaith pellach i gwblhau'r holl lythyrau cyfranogi eraill a thaflen wybodaeth Sgrinio Llygaid Diabetig

Cymru gyda chymorth ein Grŵp Gwybodaeth Cyfranogwyr newydd a'n Panel Darllen Rhithwir

Diwygio'r fframwaith asesu ar gyfer Cynorthwywyr Gofal Iechyd i'n helpu i ddathlu a rhannu arfer da

- Datblygu gweithdrefnau mewnol newydd, neu wella'r gweithdrefnau presennol, er mwyn cefnogi arfer cyson

Ein prif her o ran y gwasanaeth yw rheoli'r cynnydd yn nifer y bobl â diabetes sy'n cael eu hatgyfeirio i'r rhaglen bob blwyddyn. Mae disgwyl i adroddiad ystadegol blynyddol y rhaglen gael ei gyhoeddi ar 27 Chwefror 2020 [ar ein tudalen we](#)

10 Rhagolwg

Mae cynlluniau allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys:

- Bydd y Rhaglen Sgrinio Coluddion yn parhau i weithio i optimeiddio sgrinio'r coluddyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru
- Bydd Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru yn cwblhau gwaith i gaffael a gweithredu offer uwchsain ail genhedlaeth


Mae'r Rhaglen

Sgrinio'r Fron yn

disgwyl ymgymryd â'r cam nesaf o gyflwyno offer newydd

- Mae Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yn ceisio caffael a gweithredu uwchraddiad i'w system TG i wella prosesau. Bydd y tîm yn pennu cwrpas ac yn disgrifio'r prosiect trawsnewid ar gyfer y gwasanaeth
- Mae Sgrinio Serfigol yn cynllunio system alw/ailalw newydd - y system gyntaf i'w datblygu fel rhan o brosiect Rheoli Gwybodaeth Sgrinio ehangach yr Adran Sgrinio
- Bydd y Rhaglen Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig yn gweithio i gynnal ansawdd gwell smotiau gwaed
- Byddwn yn parhau i weithio i wella profiad defnyddwyr

gwasanaethau, ymgysylltu a nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio'n tra'n gweithio gydag arweinwyr trydydd sector, elusennau a byrddau iechyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio



11 Tîm cynhyrchu

Mae'r tîm cynhyrchu ar gyfer yr adroddiad hwn a gyflogir yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'u rhestru isod:

Dr Sharon Hillier	Cyfarwyddwr yr Adran Sgrinio
Helen Clayton	Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data
Guy Stevens	Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data
Jude Kay	Pennaeth Rhaglen, Sgrinio Llygaid Diabetig
Louise Dunk	Pennaeth Rhaglen, Sgrinio Serfigol
Steve Court	Pennaeth Rhaglen, Sgrinio Coluddion
Llywela Wilson	Pennaeth Rhaglen, Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol
Dean Phillips	Pennaeth Rhaglen, Sgrinio Bron Brawf Cymru
Ruth Lawler	Pennaeth Rhaglen, Sgrinio Mamau a Phlant
Heather Ramessur-Marsden	Prif Arbenigwr Ymgysylltu â Sgrinio
Heather Lewis	Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus – Arweinydd Sgrinio Oedolion Di-Ganser
Dr Ardiana Gjini	Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus – Arweinydd Sgrinio am Ganser
Dr Sikha de Souza	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus – Arweinydd Sgrinio Mamau/Plant
Catherine Floyd	Ymgynghorydd Locwm Iechyd Cyhoeddus
Sarah Thomas	Swyddog Cyfathrebu
Diane Rawlings	Cynorthwydd Personol
Michael O'Conner	Golygydd Digidol
Rhys George	Cofus Cyf (Cyfieithiad Cymraeg)

Rhestr Cyn Rhyddhau

Cafodd yr Ystadegau Swyddogol hyn eu hanfon at y bobl ar y rhestr cyn rhyddhau hon bum diwrnod gwaith cyn cyhoeddi yn unol â Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Jan Williams	Cadeirydd
Dr Tracey Cooper	Prif Weithredwr
Dr Quentin Sandifer	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus a'r Cyfarwyddwr Meddygol
Leah Morantz	Pennaeth Cyfathrebu

Llywodraeth Cymru

Dr Frank Atherton	Prif Swyddog Meddygol
Dr Andrew Goodall	Cyfarwyddwr Cyffredinol - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Rebekah Tune	Pennaeth Cyfathrebu Strategol a Marchnata
Yr Athro Chris Jones	Dirprwy Brif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru
Neil Surman	Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus
Dr Heather Payne	Uwch-swyddog Meddygol ar gyfer Iechyd Mamau a Phlant
Helen Tutt	Uwch-swyddog Gweithredol ar gyfer Sgrinio, Imiwneiddio ac Iechyd Rhywiol
Stephen Thomas	Pennaeth y Gangen Gwasanaethau Diogelu Iechyd

12 Rhagor o wybodaeth a chysylltiadau

Mae rhagor o wybodaeth ac adnoddau ar gael drwy'r gwefannau a'r cysylltiadau allweddol a restrir

- Gwefannau:

- Sgrinio Cyn Geni Cymru www.antenatalscreening.wales.nhs.uk
- Bron Brawf Cymru www.breasttestwales.wales.nhs.uk
- Sgrinio Coluddion Cymru www.bowelscreeningwales.org.uk
- Sgrinio Serfigol Cymru www.cervicalscreeningwales.wales.nhs.uk
- Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru www.publichealthwales.org/desw
- Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru www.newbornbloodspotscreening.wales.nhs.uk
- Sgrinio Clyw Babanod Cymru www.newbornhearingscreening.wales.nhs.uk
- Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru www.aascreening.wales.nhs.uk

Mae'r **negeseuon allweddol** ar gael drwy'r dolenni hyn:

[Sgrinio'r fron](#) [Sgrinio Coluddion](#) [Sgrinio Serfigol](#)
[Sgrinio Ymlediadau Aortig](#) [Sgrinio Llygaid Diabetig](#) [Sgrinio Cyn Geni](#)
[Abdomenol](#)
[Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig](#) [Sgrinio Clyw Babanod](#)

Gallwch gymryd rhan a helpu i godi ymwybyddiaeth o sgrinio yn eich cymuned leol drwy weithio gyda'ch Tîm Ymgysylltu â Sgrinio lleol. Mae'r tîm yn darparu adnoddau gwybodaeth am ddim, yn cyflwyno hyfforddiant a sgysiau addysgol ac yn gweithio gyda phobl a phartneriaid i wella eu gwybodaeth am sgrinio yn y gymuned. I gael gwybod rhagor am gymryd rhan, cysylltwch â ni ar screening.engagement@wales.nhs.uk

Bydd **rhagor o ddata** ar gyfer pob un o'r rhaglenni sgrinio ar gael ar wefannau'r rhaglenni yn yr adroddiadau ystadegol blyneddol. Mae data eraill sydd ar gael yn cynnwys

- [Nifer y rhai a gafodd eu sgrinio/cwmpas yn ôl bwrdd iechyd ac awdurdod lleol](#)
- [nifer y rhai a gafodd eu sgrinio/cwmpas yn ôl clwstwr meddygon teulu](#)

Cysylltiadau allweddol:

Dr Sharon Hillier, Cyfarwyddwr yr Adran Sgrinio

Heather Lewis, Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus – Arweinydd Sgrinio Oedolion Di-Ganser

Dr Ardiana Gjini, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus – Arweinydd Sgrinio am Ganser

Dr Sikha de Souza, Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus – Arweinydd Sgrinio Mamau/Plant
Heather Ramessur-Marsden, Prif Arbenigwr Ymgysylltu â Sgrinio

Yr Adran Sgrinio, Llawr 4, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BQ **E-bost:** screening.feedback@wales.nhs.uk

Ffôn: (029) 2022 7744

Minicom: (029) 2078 7907



Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg heb oedi.